# Yr Achos tros Fathodynnau Glas Gydol Oes:

# Lleisiau o Brofiad Byw

Canfyddiadau Arolwg Rhanddeiliaid a gynhaliwyd ym mis Awst a mis Medi 2025 gan STAND Gogledd Cymru CBC

STAND
GOGLEDD CYMRU CBC
Yn gryfach gyda'n gilydd ar gyfer Anghenion Ychwanegol ac Anableddau
Rhif Cwmni 11333532

STAND
NORTH WALES CIC
Stronger Together for Additional Needs & Disabilities
Company No. 11333532

"Mae'r broses ymgeisio yn achosi llawer iawn o straen a theimladau am yr anhawster rydyn ni'n ei wynebu i rieni fel fi. Mae'r effaith feddyliol yn enfawr gan orfodi realiti cyflwr gydol oes fy mhlentyn arnaf yn ddyddiol. Mae gen i blentyn arall a ddylai fod wedi derbyn bathodyn glas ond hyd yn hyn, dydw i ddim yn teimlo fy mod i'n gallu rhoi fy hun trwy gais arall."

"Mae gan fy merch ddiagnosis o barlys yr ymennydd. Mae'n gyflwr gydol oes ac ni fydd byth yn gwella. Mewn gwirionedd, wrth i'r cyflwr fynd yn ei flaen mae ei symptomau wedi gwaethygu wrth iddi heneiddio. Bydd cydnabod cyflyrau gydol oes nid yn unig yn tynnu'r pwysau oddi ar y system ond bydd hefyd yn tynnu'r pwysau oddi ar ofalwyr sydd eisoes yn wynebu beichiau gwaith papur diangen. Proses hir."

"Oherwydd nad oeddwn yn derbyn y gyfradd uwch o gydran lwfans symudedd byw i'r anabl ar yr adeg y gwnes i gais, roeddwn i'n teimlo bod y broses yn cymryd llawer o amser ac yn draenio'n emosiynol. Rwy'n rhiant ofalwr i dri o blant ag anableddau lluosog gydol oes ac ar ddiwrnod da, mae hynny'n gyfrifoldeb enfawr, yn feddyliol ac yn gorfforol. Gohiriais wneud fy nghais am dros ddwy flynedd i ddechrau, gan nad oedd gen i'r amser na'r gallu meddyliol i lenwi'r ffurflen a chasglu'r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer y cais. Pan ges i'r nerth a'r dewrder i wneud hynny o'r diwedd, roeddwn i'n teimlo bod y broses yn anodd. Er gwaethaf darparu llawer iawn o dystiolaeth, roedd yn rhaid i mi gwblhau rhestr hir o gwestiynau, a oedd eisoes wedi'u hateb yn y dystiolaeth a ddarparwyd. Fel rhiant i blant ag anableddau dwys lluosog gydol oes, cafodd cwblhau'r ffurflen effaith enfawr ar fy iechyd meddwl a'm lles, gan fod gorfod ysgrifennu'r holl frwydrau y mae eich plentyn yn eu hwynebu bob dydd yn taro'n galed. Fel unigolyn niwroamrywiol, achosodd hyn i mi brofi cyfnod hir o iselder a llosgi allan am fisoedd wedyn."

"Llenwi ffurflenni rhy gymhleth. Y rhai sy'n delio â'r cais ddim yn deall iethwedd feddygol e.e. Stenosis Aortig."

""Mae ein merch yn hollol fyddar, yn ddi-eiriau ac yn awtistig. Dywedwyd wrthym pe bai hi'n ddall y byddai'n cael un. Bu'n rhaid inni ymladd i esbonio nad yw hi'n deall peryglon ffyrdd. Mae byddardod yn golygu bod hefo un synnwyr yn llai. Mae golwg a chlyw ill dau yn hanfodol o ran plant a pherygl."

"Gorfod profi bod gen i anabledd. Pan rydw i wedi bod yn anabl o'm genedigaeth, nid oeddid yn ymddiried ynof."

# Tabl Cynnwys


1. **Gorolwg o'r Arolwg** tudalen 3

   Diben yr arolwg

   Sut y cynhaliwyd yr arolwg

   Cynrychiolaeth o fewn yr arolwg

2. **Canfyddiadau'r Arolwg** tudalen 4

3. **Sut byddai bathodyn oes yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol** tudalen 9

   Yng Ngeiriau'r Cyfranogwyr – Sut byddai bathodyn oes yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol

4. **Crynodeb o ganfyddiadau allweddol** tudalen 14

   Materion a Nodwyd

   Goblygiadau Deddfwriaethol a Chydraddoldeb

   Prif Bryderon

5. **Argymhellion** tudalen 17

6. **Casgliad** tudalen 17

Ynglŷn â STAND Gogledd Cymru CBC tudalen 18

# 1. Gorolwg o’r Arolwg

## 1.1 Diben yr arolwg

Cynhaliwyd yr arolwg hwn gan STAND Gogledd Cymru CBC i ddeall yn well feddyliau, barn a phrofiadau unigolion â diagnosis gydol oes, a'r gofalwyr sy'n eu cefnogi, wrth wneud cais am Fathodyn Glas ledled Cymru.

Yn aml, mae pobl ag anableddau gydol oes yn wynebu heriau parhaus wrth gael mynediad at y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Er gwaethaf cael cyflyrau nad ydynt yn gwella dros amser, mae'n dal i fod yn ofynnol i lawer ail-ymgeisio am Fathodyn Glas bob tair blynedd.

Nod yr arolwg oedd casglu profiadau bywyd go iawn i lywio a chryfhau'r achos dros system decach a mwy priodol i bobl â chyflyrau gydol oes. Mae'n cefnogi'r ddeiseb a ddechreuodd ym mis Ebrill 2023, yn galw am wneud ceisiadau am Fathodyn Glas gydol oes ar gyfer unigolion â diagnosis parhaol.

## 1.2 Sut y cynhaliwyd yr arolwg

Crëwyd yr arolwg ar ‘SurveyMonkey’ a rhannwyd y ddolen gyda rhestr ohebu STAND Gogledd Cymru CBC. Roedd hyn yn cynnwys yr holl rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, yn ogystal ag oedolion ag anghenion ychwanegol y mae STAND Gogledd Cymru CBC yn eu cefnogi. Rhannwyd yr arolwg ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol lle gwnaethom annog pobl i gymryd rhan a rhannu o fewn eu cymunedau. Yn ogystal, rhannwyd yr arolwg hwn gan Aelodau'r Senedd.

## 1.3 Cynrychiolaeth o fewn yr arolwg

Roedd yr arolwg yn fyw o 15 Awst i 8 Medi 2025 — cyfanswm o 25 diwrnod — a derbyniwyd cyfanswm o 636 o ymatebion. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion gan 20 o'r 22 sir yng Nghymru, sy'n dangos bod yr ystod ddaearyddol yn gryf. Roedd rhai ymatebion o Loegr hefyd, sy'n dangos nad yw pryderon ynghylch y broses ymgeisio am y Bathodyn Glas yn gyfyngedig i Gymru.

Yn ogystal, nododd sawl cyfranogwr eu bod yn byw yng Nghymru ond ni roddasant eu sir, sy'n golygu ei bod yn bosibl bod pob un o'r 22 sir yng Nghymru wedi'u cynrychioli yn yr ymatebion.

## 2. Canfyddiadau'r Arolwg

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r canfyddiadau allweddol o'r arolwg.

**Cwestiwn 1: 'Enw'**

Cymerodd cyfanswm o 636 o bobl ran yn yr arolwg ond roedd problemau technegol gyda 2 ymateb, ac felly nid yw'r ymatebion hynny wedi'u cynnwys yn y canfyddiadau.

**Cwestiwn 2: 'Eich Oedran'**

Rydym wedi casglu barn 634 o gyfranogwyr sy'n cwmpasu pob grŵp oedran.

| Ystod oedran | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| O dan 18 | 1.10% | 7 |
| 18–34 | 7.10% | 45 |
| 35–54 | 37.38% | 237 |
| 55–64 | 26.18% | 166 |
| 65+ | 28.23% | 179 |

**Cwestiwn 3: 'Ym mha Sir ydych chi yn byw?'**

Rhannwyd yr arolwg ledled Cymru, a chawsom adborth gan 20 o'r 22 sir. Cawsom hefyd rai ymatebion o Loegr, gan dynnu sylw at y ffaith nad yw hwn yn fater sy'n effeithio ar Gymru yn unig.

| Gwlad | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Cymru | 92% | 581 |
| Lloegr | 3% | 21 |
| Y Deyrnas Unedig | 2% | 13 |
| Heb ateb y cwestiwn | 2% | 12 |

**Cwestiwn 4: 'Oes gennych chi ddiagnosis gydol oes ac angen Bathodyn Glas, neu ydych chi'n gofalu am rywun sydd â'r fath ddiagnosis?'**


Derbyniodd yr arolwg 634 o ymatebion. O'r rhain, roedd 60.9% yn unigolion â diagnosis gydol oes sydd angen Bathodyn Glas arnynt, a 42.5% yn ofalwyr i rywun â diagnosis gydol oes. Yn ogystal, nododd 6.7% eu bod yn ofalwr ac yn berson ag anabledd. Daeth 6.79% pellach o'r ymatebion gan aelodau o'r teulu neu wasanaethau cymorth a gynorthwyodd i gwblhau'r broses ymgeisio..

**Cwestiwn 5: 'Ydych chi erioed wedi gwneud cais am fathodyn glas?'**

Atebodd cyfanswm o 634 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Nododd y mwyafrif, 96.21%, eu bod wedi gwneud cais am Fathodyn Glas gyda 3.79% yn dweud nad oeddent wedi gwneud hynny.

**Cwestiwn 6: 'Os felly, sut byddech chi'n disgrifio'ch profiad ymgeisio cyntaf?'**

| Dewisiadau ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Hawdd iawn | 11.83% | 75 |
| Hawdd | 20.50% | 130 |
| Nid yn hawdd nac yn anodd | 28.71% | 182 |
| Anodd | 28.55% | 181 |
| Anodd iawn | 10.41% | 66 |




**Cwestiwn 7: 'A ofynnwyd i chi roi prawf meddygol o gyflwr gydol oes?'**

| Dewisiadau ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Do – ac roedd hi yn ddigon hawdd | 41.17% | 261 |
| Do – ond doedd hi ddim yn hawdd | 34.54% | 219 |
| Naddo | 13.25% | 84 |
| Arall (rhowch fanylion os gwelwch yn dda) | 11.04% | 70 |

**Cwestiwn 8: 'A ofynnwyd erioed i chi ddarparu prawf meddygol pellach o gyflwr gydol oes?'**

| Dewisiadau ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Do | 21.61% | 137 |
| Naddo | 65.30% | 414 |

***'Llythyr asesiad/dyfarnu PIP, llythyr Meddyg Teulu.'***

*'Yr un cwestiynau a bwndel cynyddol o ddogfennau ategol yn cael eu gofyn pob tor byddir yn ail-ymgeisio.'*

***'Roedd fy nhad yn destun archwiliadau meddygol bob tair blynedd i weld a oedd ei goes oedd wedi'i thorri i ffwrdd wedi aildyfu.'***

*'Roedd yn rhaid iddo ddangos graddfa'r anabledd yn y stryd y tu allan i'r tŷ. Yn ddiraddiol iawn.'*

***'Mae faint o wybodaeth y mae'n rhaid i mi ei darparu eto am yr un cyflwr ag y mae hi wedi'i gael ers ei geni yn chwerthinllyd. Nid yw'n gyflwr meddygol sy'n golygu nad ydym yn gweld gweithwyr meddygol proffesiynol amdano. Mae cymaint o'r llythyrau sydd gennym yn hen iawn. Nid yw'r GIG yn cyhoeddi rhywbeth mor syml â thystysgrif o gael cyflwr meddygol gydol oes a'i enwi - er y byddai hynny'n ddefnyddiol iawn.'***

*Gweithiwr proffesiynol oedd yn cefnogi cais – 'Mae angen llythyrau ategol bob amser a gallant gymryd peth amser i'w cael sy'n oedi hawliad ac yn ychwanegu straen i'r cleient.'*

**Cwestiwn 9: 'Ydych chi wedi gorfod adnewyddu eich bathodyn er nad yw eich cyflwr wedi newid?'**


| Dewisiadau ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydw | 80.28% | 509 |
| Nac ydw | 19.72% | 125 |

Yn seiliedig ar y sylwadau, roedd y rhai a atebodd 'Nac ydw' i'r cwestiwn yma yn aml yn gwneud hynny o herwydd:

- eu bod yn dal Bathodyn Glas am y tro cyntaf ac nad oeddent wedi cyrraedd y cam adnewyddu eto
- eu bod yn cefnogi rhywun arall gyda'r broses ymgeisio (felly nid oedd yn berthnasol iddynt hwy eu hunain)
- y straen o wneud cais am y bathodyn cychwynnol

**Cwestiwn 10: 'Os felly, oedd hynny yn:'**

| Dewisiadau ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Hawdd iawn | 6.07% | 31 |
| Hawdd | 18.40% | 94 |
| Nid yn hawdd nac yn anodd | 31.90% | 163 |
| Anodd | 27.20% | 139 |
| Anodd iawn | 17.22% | 88 |




**Mae rhai wedi gorfod gwneud cais hyd at 7 gwaith am 1 bathodyn.**

Profiad cyfranogwyr o wneud cais:

***'Wnes i ddim ail-ymgeisio gan fy mod i'n gwybod cymaint o straen oedd hi'r tro cyntaf ac oherwydd nad oedd y cyflwr wedi newid, doeddwn i ddim eisiau mynd trwy broses llawn straen eto felly penderfynais roi'r gorau i'r cais.'***

*'Maen nhw wedi fy ngwrthod yn llwyr heb unrhyw hawl i apelio ar y sail nad ydw i'n cymryd digon o dabledi.'*

***'Dydw i ddim wedi llwyddo i ail-ymgeisio - mae'n rhy gymhleth ac rwy'n rhy brysur yn gofalu.'***

*Gweithiwr proffesiynol oedd yn cefnogi ceisiadau: 'Mae aelodau'n datgan bod y broses ail-ymgeisio yn anoddach na'r cais cychwynnol, a'i bod yn llawn straen. Mae bathodynnau glas pobl yn dod i ben cyn i'w rhai newydd gyrraedd oherwydd na allwch chi ail-ymgeisio cyn 28 diwrnod o'r dyddiad dod i ben, a gall gymryd hyd at 2 fis i'r bathodynnau glas gyrraedd mewn gwirionedd.'*

### Cwestiwn 11: ‘Pa mor aml mae'n rhaid i chi ail-ymgeisio?’

| Dewisiadau ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Bob blwyddyn | 7.89% | 50 |
| Bob tair blynedd | 77.76% | 493 |
| Arall (nodwch) | 14.35% | 91 |

Nododd y rhai a atebodd ‘arall’ nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys unigolion sy'n cefnogi rhywun arall gyda'r broses ymgeisio, rhai sydd wedi rhoi'r gorau i ymgeisio'n gyfan gwbl, ac eraill nad oeddent yn siŵr pa mor aml y maent yn ailymgeisio.


### Cwestiwn 12: ‘Oes rhaid i chi lenwi'r ffurflen gais lawn bob tro rydych chi'n ailymgeisio?’

| Dewisiadau ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Oes | 85.49% | 542 |
| Nac oes | 14.51% | 92 |

Roedd y rhai a atebodd ‘Nac oes’ yn cynnwys rhai sy’n cefnogi rhywun arall i lenwi’r ffurflen, yn hytrach na’i llenwi eu hunain.

### Cwestiwn 13: Ydych chi wedi cael eich nodi fel 'ddim ar gyfer ailasesiad'

| Dewisiadau ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Do | 1.10% | 7 |
| Naddo | 30.13% | 191 |
| Dwi ddim yn siŵr | 12.93% | 82 |
| Doeddwn i ddim yn ymwybodol y gallai rhai pobl gael eu nodi fel ‘dim ar gyfer ailasesiad’ (DAGA) | 55.84% | 354 |




Roedd mwyafrif y cyfranogwyr, 68.7%, unai ddim yn ymwybodol o'r opsiwn 'Nid ar gyfer Ailasesiad' neu'n ansicr amdano, sef cyfanswm o 436 o gyfranogwyr.

### Cwestiwn 14: A yw eich adnewyddiad erioed wedi: (Dewiswch y cyfan sy’n berthnasol)

| Dewisiadau ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Cael ei oedi | 28.86% | 183 |
| Cael ei wrthod | 11.04% | 70 |
| Eich gadael heb fathodyn glas am gyfnod | 33.28% | 211 |

Cyfranogwyr yn rhannu eu profiadau:


***'Syrthiodd ein hadnewyddiad yn ystod cyfnod pan oedden ni mewn argyfwng. Roedd fy merch yn hunan-niweidio'n ddifrifol ac roedd yn rhaid i mi flaenoriaethu fy amser. Roedd hynny'n golygu, erbyn yr amser y gwnes i gais, bod yn rhaid i mi wneud cais eto, yn hytrach nag adnewyddu ei bathodyn. Gadawodd hyn ni heb fathodyn glas dilys am dros wyth wythnos.'***

*'Mae llawer o'n haelodau wedi nodi bod y broses yn anodd iawn, ac yn llawn straen. Mae rhai aelodau wedi gwrthod ail-ymgeisio oherwydd bod y broses yn creu cymaint o straen ac efallai y byddent yn eu gadael heb y bathodyn beth bynnag. Mae'r aelodau hyn bellach yn ei chael hi'n anodd oherwydd nad oes ganddyn nhw fynediad at barcio hygyrch.'*

***'Gadawais ef tan flwyddyn yn ddiweddarach gan na allwn ei wynebu eto felly bûm yn brwydro ymlaen ac ymlaen ac ymlaen.'***


**Cwestiwn 15: A yw'r broses wedi achosi un o'r canlynol?'**
**(Ticiwch y cyfan sy'n berthnasol)'**

| Dewisiadau ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Pwysau a phryder | 77.60% | 492 |
| Ynysu | 19.09% | 121 |
| Diffyg annibyniaeth | 34.54% | 219 |
| Costau ychwanegol | 22.08% | 140 |
| Na, heb achosi unrhyw un o'r uchod | 10.70% | 68 |
| Ddim wedi gwneud cais i adnewyddu | 1.70% | 11 |




**Cwestiwn 16: 'A fyddai bathodyn glas gydol oes yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i chi neu'r person rydych chi'n gofalu amdano?'**

| Dewisiadau ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Buasai | 97.79% | 620 |
| Na fuasai | 2.21% | 14 |



## 3. Sut byddai bathodyn oes yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol

Gofynnwyd i gyfranogwyr a ddywedodd y byddai bathodyn oes yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddynt hwy neu'r person yr oeddent yn gofalu amdano egluro sut y byddai'n gwneud hynny ac mae rhai o'r ymatebion wedi'u cynnwys isod.

*'Rwy'n ofalwr llawn amser i'm merch sydd yn oedolyn ag anableddau dysgu difrifol, rwyf hefyd yn gweithio ac mae gen i fy nghyflyrau iechyd fy hun. Ni fydd cyflwr fy merch byth yn newid, ni fydd hi byth yn "gwella" yn wyrthiol, felly dydw i ddim yn deall pam fod hyn yn rhwystr arall yn y cylch prysur eisoes o geisio cofio ei hapwyntiadau, ffurflenni, adnewyddu / newidiadau budd-daliadau, taliadau gofal dewisol a'r gwaith papur cysylltiedig a llefydd i fod. Mae hefyd yn anodd cael llythyrau gan fudd-daliadau/meddygon/ysbytai gyda'r union eiriad y byddai ei angen. Mae gofalu am oedolyn ag anabledd dysgu eisoes yn ddigon o straen ac nid ydym yn cael digon o gefnogaeth a chydnabyddiaeth - byddai'n hyfryd cael gwared ar un o'r beichiau.'*

***'Yn wir, oni bai eich bod wedi cael cyflwr gydol oes neu, yn waeth byth, nifer o gyflyrau sy'n datblygu o ganlyniad i sut y gallai eich cyflwr cychwynnol effeithio ar eich bywyd a'ch iechyd yn y dyfodol, ni allwch ddeall pa mor ddinistriol y gall fod. Rwy'n berson duwiol iawn ond mae'n gywilydd gen i gyfaddef fy mod wedi ystyried cymryd fy mywyd fy hun ar un adeg, dyna sut y gallech gael eich gweld gan y cyhoedd yn gyffredinol. Rwy'n gwir ddeall eu dicter. Yn anffodus mae yna bobl sy'n manteisio ar y system Lles ac maent yn warth ac yn bla ar ddynoliaeth. Nid yw pob cyflwr yn weladwy. Mae fy nghyflyrau i yn niferus ac rwyf wedi bod hefo nhw ers tua 40 mlynedd. Ni ellir rhoi'r dicter rydych chi'n ei deimlo y tu mewn am yr angen cyson i brofi eich anableddau mewn geiriau, mewn gwirionedd. O leiaf, fel y dywedais, buasai derbyn bathodyn gydol oes neu o leiaf fel yn fy Achos PIP i, un deng mlynedd, yn tynnu rhywfaint o'r straen allan o orfod ailymweld â rhywbeth na allwch ei newid. Ni allwch danbrisio pa mor bwysig yw hynny ar gyfer tawelwch meddwl.'***

*'Mae fy mab wedi cael diagnosis o Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth ac mae wedi cael bathodyn glas yn seiliedig ar ei ddiffyg llwyr o ymwybyddiaeth o berygl. Mae'n risg traffig, ei barlys ewyllys dros dro a'i wrthodiad i gerdded, weithiau'n gorwedd ar y briffordd oherwydd gorlwytho synhwyraidd. Mae bathodyn glas wedi golygu ein bod ni'n gallu lleihau'r risg sylweddol o berygl iddo ef ac eraill pan fyddwn allan yn gyhoeddus. Mae ganddo ddiagnosis o ASA, mae bob amser yn mynd i fod yn awtistig a byddai cael bathodyn glas nad oes angen i mi ei adnewyddu a'i gael iddo am anabledd gydol oes yn golygu un peth yn llai i ymladd drosto pan fo gan rieni Anghenion Addysgol Arbennig ddigon i ymladd drosto eisoes.'*

***'Byddai'n un darn o waith papur na fyddai'n rhaid i ni ei lenwi ac ni fyddai'n rhaid i ni gofio pryd mae angen i ni ddechrau'r broses adnewyddu i sicrhau nad ydym heb fathodyn.'***

*'Byddai'n rhoi'r urddas y mae fy mhlant yn ei haeddu, heb orfod ymladd ac eiriol drostynt yn gyson, dros yr hyn y mae ganddynt hawl iddo yn ôl y gyfraith. Byddai'n lleihau'r pwysau sy'n disgyn ar deuluoedd fel fy un i ac yn gwella ein hiechyd meddwl a'n lles, gan fod gan bob cais effaith negyddol sylweddol arnom ni. Oni bai bod gennych brofiad byw o fagu plant ag anabledd gydol oes, neu fod hefo un eich hun, ni fyddwch yn gwerthfawrogi'r effaith ddinistriol y mae'n ei chael ar ein lles emosiynol.*

*Rwy'n flinedig yn gorfforol ac yn dal gafael mewn edau, ac un diwrnod bydd yr edau honno'n torri, oni bai bod rhyddhad pwysau yn rhywle, o faint o waith gweinyddu a cheisiadau yr ydym yn eu hwynebu.*

*Mae gan fy mhlant anableddau dwys gydol oes, a fydd bob amser yn rhoi hawl iddynt gael bathodyn glas; mae'n bryd ystyried hynny a gwneud newidiadau i'r gyfraith. I ystyried bod cymaint o'r bobl sy'n cyflwyno ceisiadau ar ran pobl eraill ag anableddau eu hunain, ac mae'r broses adnewyddu yn ei gwneud hi gymaint yn anoddach i ni sydd ag anableddau. Fy mhryder hefyd yw'r pwysau enfawr y mae'r holl adnewyddiadau diangen yn ei roi ar ein cynghorau sir, yn ogystal â gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, ac addysg, oherwydd y nifer fawr o lythyrau cefnogaeth y mae'n ofynnol iddynt eu darparu, ar adeg pan maen nhw eisoes dan bwysau.'*

***'Tawelwch meddwl i unigolion wrth gynnal eu hannibyniaeth a mynediad at y gymuned heb boeni am adnewyddu bathodyn glas.'***

*'Ar ôl cefnogi unigolion dros nifer o flynyddoedd, rwy'n gwbl ymwybodol fod bathodynnau glas yn hanfodol wrth gynnal annibyniaeth a bydd bathodyn gydol oes yn osgoi'r straen, y pryder a'r ymddygiadau rydw i wedi'u gweld oherwydd bod bathodynnau wedi dyddio neu wedi'u gwrthod heb reswm.'*

***'Dim ond unwaith y mae angen i chi wneud cais, felly nid yw'r straen cychwynnol yn cael ei ailadrodd bob ychydig flynyddoedd. Hefyd, ni fyddai'r atgoffa cyson nad ydych chi'n gallu gwneud pethau y mae pobl eraill yn eu gwneud ac mae angen cefnogaeth a chymhorthion ychwanegol arnoch i helpu gyda hynny - adroddodd aelodau nad ydyn nhw'n hoffi cael eu hatgoffa eu bod nhw'n anabl. Dywedodd un aelod "mae fy anabledd am oes, felly pam mae angen i mi ail-ymgeisio bob ychydig flynyddoedd pan nad oes dim wedi newid?" Mae pob un o'n haelodau sy'n defnyddio bathodyn glas wedi mynegi pryderon am y broses ail-ymgeisio. Dywedodd ein haelodau hefyd y byddai'n rhoi mwy o annibyniaeth iddyn nhw pe na bai'n rhaid iddyn nhw ail-ymgeisio oherwydd bod angen cefnogaeth ar lawer o'n dynion i wneud cais/ail-ymgeisio, a fyddai'n golygu mai dim ond unwaith y bydden nhw angen cefnogaeth, yn hytrach nag yn barhaus.'***

*'O blith yr holl bobl rwy'n gofalu amdanynt, mae gan bob un ohonynt gyflwr gydol oes na fydd yn gwella. Mae cwblhau cais adnewyddu ar gyfer pob un ohonynt yn cymryd llawer o amser ac yn llawn straen, yn enwedig gan fod angen i mi weithiau gwblhau ail ffurflen hefo yr un cwestiynau. Rwy'n deall y gallai fy anabledd fy hun newid a bod angen adolygu'r anghenion, ond mae angen cadair olwyn ar fy mab er enghraifft ac mae ganddo symudedd cyfyngedig a phoen a fydd ganddo am ei oes. Nid oes angen gorfod cwblhau'r ffurflenni dro ar ôl tro. Mae ei adnewyddu yn hwyr ar hyn o bryd ac mae mewn gwirionedd heb fathodyn ar hyn o bryd oherwydd fy mod mor brysur gyda chyfrifoldebau gofalu fy rhieni oedrannus nad oes gennyf amser i gael ei fathodyn. Ond mae hyn yn golygu mai dim ond gyda mi y gall deithio gan fod gen i fy fathodyn ac ni allaf ddibynnu ar eraill i helpu i'w gludo oherwydd nad oes ganddo ei fathodyn ei hun ar hyn o bryd.'*

***'Mae gofalwyr di-dâl yn jyglo cymaint o dasgau, ac mae rhai ohonom yn gofalu am fwy nag 1 person wrth geisio gwneud ein swyddi, rhedeg y tŷ ac ati. Byddai bathodynnau glas gydol oes i'r rhai â chyflyrau gydol oes yn helpu i reoli 1 llwyth o waith papur / tasgau ychwanegol.'***

*'Hyd yn oed wrth lenwi'r ffurflen hon, rwy'n cael teimlad o ofn wrth siarad am anabledd, gan deimlo bod angen i mi brofi salwch ac anabledd. Gan fod yn rhaid i mi lenwi ffurflen PIP i gael prawf o anabledd. Mae'r ffurflen PIP yn anodd iawn i'w chwblhau. Yn peri gofid ac anhawster mawr. A oes modd o gysylltu PIP fel ei fod yn darparu tystiolaeth yn awtomatig a bod bathodyn glas yn cael ei ddarparu?'*

***'Llai o bryder, llai o waith gweinyddol pan nad oes digon o oriau yn y dydd a dim seibiant. Ystyriwch bobl na allant gael mynediad at sganiwr ar gyfer dogfennau!!'***

*'Peidio â gorfod cwblhau'r cais llawn a darparu tystiolaeth unwaith eto. Bydd hyn yn digwydd gyda phob ailasesiad PIP, gan na fydd y dyfarniad hawl wedi'i adnewyddu cyn i fy mathodyn glas ddod i ben. Mae'r oedi a achosir gan y methiant hwn i allu ailymgeisio gan ddefnyddio'r llwybr dyfarniad PIP symudedd gwell awtomatig ar gyfer fy mathodyn glas yn arwain at fwy o oedi. Costiodd hyn ddirwy barcio i mi gan fod yn rhaid i mi barcio'n agos at y fferyllfa i gasglu fy meddyginiaeth a phan atafaelwyd y bathodyn a oedd wedi dod i ben, roedd yn rhaid i mi gerdded yn llawer pellach mewn poen i gyrraedd siopau a chyfeillion*.'

***'Byddai'n creu rhyddhad gan na fyddai'n rhaid i mi brofi fy hun yn barhaus yn fy nghymuned. Gallaf fyw'n annibynnol fel y gall y rhan fwyaf o bobl eraill heb yr angen am dystiolaeth. Mae'r broses PIP yn ddigon diraddiol, byddai cael bathodyn gydol oes yn lleddfu'r baich, y gwaith gweinyddol ac yn rhoi'r grym i mi fyw'n rhydd heb ddyddiad dod i ben. Hoffwn ofyn, os oes pobl ar y bwrdd sy'n ystyried y ddeiseb hon heb unrhyw brofiad o anabledd, i gamu allan o'ch esgidiau a bod ochr yn ochr â ni yn y penderfyniad hwn i sylweddoli pa mor helaeth yw'r gwaith papur a'r gwaith gweinyddol i bobl anabl / pobl ag anableddau fodoli.'***

*'Mae'n gas gen i orfod rhestru pa mor anabl ydw i mewn gwirionedd. Rwy'n ei adael tan yr eiliad olaf bosibl i wneud cais gan fy mod yn gwybod y bydd yn creu iselder.'*

***'Fel rhywun ag anabledd, mae'n teimlo fel fy mod i'n treulio fy mywyd cyfan yn llenwi ffurflenni, neu'n cael gwaith papur dim ond i lenwi ffurflen. Mae'n beth ychwanegol sy'n chwarae yng nghefn fy meddwl y bydd angen i mi adnewyddu fy mathodyn. Dydw i ddim am wella o gwbl, byddaf bob amser angen cadair olwyn, byddaf bob amser angen mynediad at le parcio mwy i fynd i mewn ac allan o gar, lle rwy'n mynd mae fy nghadair olwyn yn mynd felly byddaf bob amser angen y bathodyn glas hwnnw. Dydw i ddim yn hoffi'r straen ohono a hoffwn gael un darn yn llai o waith papur y mae angen i mi ei lenwi sy'n fy atgoffa fy mod i'n anabl, rwy'n wahanol i lawer o'r boblogaeth.'***

*'Gall cael anabledd gydol oes deimlo mor ynysig ac yn aml rwy'n teimlo mor wahanol i eraill fy mod i'n cael trafferth derbyn cefnogaeth. Mae gorfod adnewyddu fy mathodyn glas eisoes yn frwydr gorfforol i'w wneud ond mae gwybod bod yn rhaid i mi gael fy atgoffa bob 3 blynedd fy mod i'n wahanol ac angen mwy o gefnogaeth yn frwydr feddyliol ac yn aml mae'n gwneud i mi deimlo fel pe na bawn i eisiau mynd trwy'r drafferth a'r anhawster. Mae hyn yn golygu, yn y dyfodol pan fyddaf yn adnewyddu fy mathodyn, y gallaf gael trafferth derbyn bod angen y gefnogaeth arnaf er y bydd fy anabledd yn para gydol oes.'*

***'Dim ond peidio â gorfod hawlio'r un hen gymorth drwy'r amser am yr un hen gyflwr. Mae anwelladwy yn anwelladwy! Dylai barn broffesiynol meddygon teulu, meddygon ac unrhyw weithiwr meddygol proffesiynol wneud bywyd yn haws i ni i gyd.***

***Derbyniwch arbenigedd meddygol a rhowch y gorau i'n gorfodi i brofi rhywbeth na allwn ei brofi - dyna pam mae'r sefydliad meddygol yno!!'***

*'Gan nad oes cynllun atgoffa, aeth fy mathodyn allan o ddyddiad 8 mis a gallwn fod wedi cael fy erlyn am ei ddefnyddio yn yr amser hwnnw hyd at £1000 a chael fy hawl i fathodyn wedi'i dynnu oddi arnaf. Warden traffig meddylgar a gymerodd y drafferth i gysylltu â mi amdano. Fel mae'n digwydd, nid oeddwn wedi parcio mewn bae parcio i'r Anabl, ond roedd am fy rhybuddio fy mod mewn perygl, a bod nifer o rai eraill wedi mynd i drybini yn y sefyllfa hon. Gan ei fod wedi dod i ben, roedd yn rhaid i mi wneud cais newydd o'r dechrau.'*

***'Peidio â gorfod profi bob tro fy mod yn anabl a gwastraffu arian trethdalwyr**.'*

*'Hoffwn dynnu sylw at y canlyniadau difrifol a phellgyrhaeddol a achosir gan oedi wrth weinyddu cynllun y Bathodyn Glas. Oherwydd aneffeithlonrwydd sylweddol wrth brosesu fy nghais, cefais fy ngadael heb yr amddiffyniadau a'r hawliau hanfodol y bwriedir i'r Bathodyn Glas eu darparu. Yn ystod y cyfnod hwn o oedi, cefais fy rhoi mewn sefyllfa lle, er mwyn diwallu anghenion hanfodol o ddydd i ddydd a mynediad at wasanaethau, roedd yn ofynnol i mi barcio mewn ardaloedd lle, pe bai fy Bathodyn Glas wedi'i gyhoeddi ar amser, byddwn wedi bod â hawl i wneud hynny. O ganlyniad uniongyrchol i beidio â chael y bathodyn yn fy meddiant, cefais nifer o hysbysiadau tâl cosb. Nid oedd y dirwyon hyn yn ganlyniad o anwybyddu'r gyfraith; roeddent yn ganlyniad anochel o fethiant gweinyddol. Cododd pob achos y realiti ymarferol o fyw gydag anabledd a'r angen i barcio gerllaw i gael mynediad at wasanaethau iechyd, gwaith a chymunedol. Mae effaith yr oedi hwn wedi bod yn sylweddol. Yn gyntaf, bu baich ariannol hysbysiadau cosb. Yn ail, rwyf wedi gorfod ymgymryd â heriau cyfreithiol dro ar ôl tro er mwyn herio'r dirwyon hyn. Mae hyn wedi golygu paratoi apeliadau, casglu a chyflwyno tystiolaeth feddygol a chyfreithiol, a llywio prosesau cymhleth sy'n gofyn am amser, adnoddau ac egni y gellid bod wedi'u cyfeirio'n llawer gwell at fy iechyd, fy rhwymedigaethau proffesiynol, a'm cyfrifoldebau personol. Nid yn unig y bu'r baich yn ariannol ac yn weinyddol ond hefyd yn emosiynol. Mae cael fy rhoi dro ar ôl tro mewn sefyllfa lle mae'n rhaid i mi amddiffyn fy hawl i addasiadau rhesymol, gan wybod mai pwrpas cynllun y Bathodyn Glas yw atal gwaharddiad o'r fath, yn peri gofid ac yn rhwystredig.*

*Mae'r system, i bob pwrpas, wedi trosglwyddo canlyniadau oedi gweinyddol arnaf fel person anabl, gan greu sefyllfa o anfantais ac anghydraddoldeb. Mae'r achos hwn yn tynnu sylw at broblem strwythurol ehangach. Pan fydd ceisiadau am Fathodynnau Glas yn cael eu gohirio, nid yw pobl anabl yn cael eu gadael yn aros am ddarn o ddogfennaeth yn unig. Maent yn agored i risg anghymesur o gosb, gwrthdaro cyfreithiol diangen, a gwahaniaethu uniongyrchol wrth gael mynediad at fywyd bob dydd. Yn ymarferol, mae hyn yn tanseilio rhwymedigaethau statudol cyrff cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb, darparu addasiadau rhesymol, ac atal anfantais o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yng ngoleuni'r profiadau hyn, rwy'n annog ystyried diwygiadau i rwystro i hyn ddigwydd eto. Mae mesurau posibl yn cynnwys: * Cyflwyno trwyddedau dros dro i gwmpasu'r cyfnod rhwng y cais a'r penderfyniad terfynol. * Sefydlu terfynau amser statudol clir ar gyfer prosesu ceisiadau, gydag atebolrwydd i awdurdodau sy'n mynd y tu hwnt iddynt. * Cyfarwyddeb i awdurdodau lleol a chyrff gorfodi i arfer disgresiwn, neu i atal camau gorfodi, lle mae tystiolaeth o gais sydd ar y gweill yn bodoli. Mae methu â gweithredu mesurau diogelwch o'r fath yn rhoi pobl anabl mewn sefyllfa anghynaladwy: naill ai cyfyngu ar eu cyfranogiad eu hunain mewn cymdeithas, neu wynebu'r perygl o gosb ariannol a gwrthdaro cyfreithiol wrth aros am fynediad at gynllun a gynlluniwyd yn benodol i atal rhwystrau o'r fath.*

*Mae fy mhrofiad yn dangos nad anghyfleustra bach yw canlyniadau oedi ond cyfyngiadau difrifol ar annibyniaeth, cydraddoldeb ac urddas. Felly, mae'r cyflwyniad hwn nid yn unig yn ceisio cofnodi effaith bersonol oedi yn fy achos fy hun ond hefyd yn tynnu sylw at angen brys am welliant systemig. Heb ddiwygio, bydd eraill yn parhau i wynebu caledi diangen, brwydrau cyfreithiol ac allgáu o ganlyniad i aneffeithlonrwydd gweinyddol. Bwriedir i gynllun y Bathodyn Glas fod yn fecanwaith o gefnogaeth a chynhwysiant; ni ddylai, trwy oedi a methiannau cyflawni, ddod yn ffynhonnell anfantais a gofid.*

*Mae yn un o'r offerynnau pwysicaf ar gyfer galluogi pobl anabl i gael mynediad cyfartal at fywyd bob dydd. Fodd bynnag, er gwaethaf ei fwriad, mae'r cynllun yn cael ei rwystro gan weinyddiaeth hen ffasiwn a gorddibyniaeth ar ddull model meddygol sy'n aml yn anfantais i'r union bobl y mae wedi'i gynllunio i'w cefnogi. Ar ôl byw gydag anabledd am dros 43 mlynedd, a chyda mwy nag 20 mlynedd o brofiad o gynghori llywodraethau ar anabledd a diwygio systemau, gallaf dystio i sut mae'r cynllun presennol yn creu rhwystrau yn hytrach na'u dileu.*

*Ar hyn o bryd, mae ceisiadau'n dal i gael eu hasesu'n drwm ar dystiolaeth feddygol. Mae'r gofyniad hwn yn gorfodi pobl anabl i gasglu, ar gost ac ymdrech bersonol, brawf manwl o nam. Mae'n rhoi pwyslais gormodol ar ddiagnosis yn hytrach na chydnabod rhwystrau anablu'r amgylchedd adeiledig. Mae system o'r fath nid yn unig yn achosi oedi ond hefyd yn tanseilio urddas, gan orfodi ymgeiswyr i gyfiawnhau ac ail-brofi eu cyflyrau yn hytrach na chanolbwyntio ar sut mae cyfyngiadau parcio a symudedd anhygyrch yn effeithio ar eu cyfranogiad mewn cymdeithas.*

*Rhaid i gynllun diwygiedig fod wedi'i seilio'n gadarn ar fodel cymdeithasol anabledd. Mae hyn yn golygu symud y ffocws i ffwrdd o gadw porth meddygol a thuag at brofiad byw, ymarferoldeb, a'r rhwystrau amgylcheddol sy'n cyfyngu ar annibyniaeth. Drwy fabwysiadu'r dull hwn, byddai'r Bathodyn Glas yn adlewyrchu ei bwrpas fel ei bwriadwyd yn well: nid fel hawl feddygol, ond fel offeryn ymarferol i gael gwared ar rwystrau sy'n atal pobl anabl rhag cael mynediad at waith, gofal iechyd, bywyd cymunedol, a chyfranogiad cymdeithasol. Byddai hefyd yn dod â'r cynllun yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a chyda ymrwymiadau llywodraethol ehangach i gydraddoldeb a chynhwysiant.*

*Mae digideiddio yn gam angenrheidiol arall. Mae'r ddibyniaeth bresennol ar fathodyn ffisegol a ddangosir yn y ffenestr flaen yn agored i gamgymeriadau, camddefnydd, lladrad ac oedi. Dylai system fodern gysylltu'r hawl yn uniongyrchol â rhif cofrestru cerbyd fel y gall swyddogion gorfodi, gan ddefnyddio technoleg adnabod platiau rhif presennol, adnabod cerbydau sydd â hawl i barcio o dan y cynllun ar unwaith. Byddai hyn yn lleihau dibyniaeth ar ddogfennau ffisegol, yn atal camddefnydd, ac yn lleihau dirwyon ac anghydfodau diangen.*

*Ar yr un pryd, mae'n hanfodol cadw hyblygrwydd i bobl anabl sy'n teithio mewn sawl cerbyd, er enghraifft gyda theulu, gofalwyr, neu ffrindiau. Felly mae angen dull hybrid: hawl sy'n gysylltiedig â cherbyd i'w ddefnyddio'n rheolaidd, ochr yn ochr â bathodyn cludadwy—boed yn ddigidol neu'n gorfforol—y gellir ei ddefnyddio wrth deithio mewn cerbydau eraill. Mae hyn yn sicrhau diogelwch, effeithlonrwydd a chyfleustra heb danseilio'r hyblygrwydd y mae llawer o bobl anabl yn dibynnu arno. I'r rhai sy'n gyrru eu hunain, gellid cysylltu'r hawl hefyd â'r drwydded yrru, gan alluogi gwiriadau gorfodi i gael eu cynnal yn gyflym ac yn ddiogel yn erbyn yr unigolyn a'u cerbyd. Byddai sawl budd uniongyrchol yn gysylltiedig â chyflwyno'r diwygiadau hyn. Byddai'n lleihau oedi a baich tystiolaeth feddygol drwy gyflwyno proses ymgeisio symlach, hefo sail gymdeithasol.*

*Byddai'n lleihau'r doll weinyddol ac emosiynol a achosir gan anghydfodau a dirwyon gorfodi. Byddai'n moderneiddio gorfodi drwy ddigideiddio, gan gysylltu'r cynllun â'r trawsnewidiad digidol ehangach o wasanaethau'r llywodraeth. Yn anad dim, byddai'n adfer urddas, tegwch a chydraddoldeb i gynllun sy'n rhy aml yn methu â chyrraedd y gwerthoedd hynny'n ymarferol.*

*Mae Cymru, fel cenedl sydd wedi hyrwyddo model cymdeithasol anabledd yn gyson mewn polisi a deddfwriaeth, mewn sefyllfa unigryw i arwain y diwygiad hwn. Pe bai Cymru yn gweithredu cynllun Bathodyn Glas wedi'i ailgynllunio a fyddai'n cyfuno asesiad model cymdeithasol ag arloesedd digidol, byddai'n dangos i weddill y DU sut y gellir trosi rhethreg yn newid systemig pendant. Byddai cam o'r fath nid yn unig yn lleddfu caledi i bobl anabl yng Nghymru ond byddai hefyd yn cadarnhau safle'r genedl fel arweinydd blaengar mewn hawliau a chynhwysiant anabledd, gan osod meincnod i eraill ei ddilyn.*

*Felly mae'r achos dros ddiwygio yn glir. Rhaid i gynllun y Bathodyn Glas esblygu o system statig, feddygol, seiliedig ar bapur i hawl fodern, hyblyg, hefo dealltwriaeth gymdeithasol sy'n dileu rhwystrau go iawn. Heb y newid hwn, bydd pobl anabl yn parhau i wynebu oedi, dirwyon, anghydfodau, ac allgáu—canlyniadau y gellir eu hosgoi'n llwyr mewn cymdeithas sy'n honni ei bod yn gwerthfawrogi cydraddoldeb ac urddas.'*

***'Mae'n golygu wrth i'r ferch fynd yn hŷn na fyddai'n rhaid iddi wneud cais gan nad oes unrhyw ffordd y gallai gwblhau cais ei hun hebom ni.'***

Dyma **rai** o resymau'r cyfranogwyr pam y byddai cael Bathodyn Glas Gydol Oes yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

## 4. Crynodeb o ganfyddiadau allweddol

Rydym wedi derbyn barn unigolion ledled Cymru a rhai o Loegr, gan gwmpasu pob categori oedran. Mae'r cyfranogwyr yn cynnwys:

- Unigolion â diagnosis gydol oes
- Gofalwyr
- Pobl sy'n unigolion ag anableddau ac yn ofalwyr
- Gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi'r broses ymgeisio am Fathodyn Glas

Mae canfyddiadau'r arolwg hwn nid yn unig yn tynnu sylw at fethiannau gweithredol yn system y Bathodyn Glas ond maent hefyd yn codi pryderon difrifol mewn perthynas â chydraddoldeb, hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol.

O dan Ddeddf y Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970, mae gan Lywodraeth Cymru'r pŵer, trwy Adran 21, i arwain newid ystyrlon a pharhaol yn y ffordd y cefnogir unigolion anabl.

Mae'r adborth a gasglwyd trwy'r arolwg hwn yn tynnu sylw at anfodlonrwydd eang hefo'r broses bresennol o ymgeisio am ac adnewyddu Bathodyn Glas. Isod mae crynodeb o rai o'r pryderon allweddol, ac mae argymhellion ar gyfer newid wedi'u cynnwys yn yr adran ganlynol.

## 4.1 Materion a Nodwyd

### a) Proses Ymgeisio Anodd ac Ailadroddus

Disgrifir y prosesau ymgeisio cychwynnol ac adnewyddu fel rhai sy'n ddiangen o gymhleth, yn cymryd llawer o amser, ac yn gostus.

Mae ceisiadau dro ar ôl tro am wybodaeth yn union yr un fath yn creu baich gweinyddol i ymgeiswyr a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Mae'r angen i ddarparu tystiolaeth feddygol gyfoes yn arbennig o anodd i'r rhai sydd â chyflyrau gydol oes nad ydynt efallai wedi gweld gweithiwr iechyd proffesiynol yn ddiweddar.

Gofynnir i lawer dalu am ddogfennaeth ddyblyg neu brofi ei ddilysrwydd, gan ychwanegu at y costau ariannol a'r straen.

### b) Diffyg Nodyn Atgoffa a Chyfathrebu

Nid oes system atgoffa swyddogol pan mae Bathodynnau Glas ar fin dod i ben. O ganlyniad, mae llawer o unigolion yn colli eu Bathodyn Glas heb iddynt sylweddoli hynny, gan arwain at:

- Ddirwyon Parcio
- Golli cerbydau symudedd
- Mwy o ynysu

### c) Oedi ac Esgusodiadau Ailasesu Cyfyngedig

Ni all ymgeiswyr ailymgeisio tan bwynt penodol cyn bydd bathodyn yn dod i ben, ond mae llawer yn dal i aros y tu hwnt i'r amserlenni swyddogol i dderbyn bathodyn wedi'i adnewyddu. Dim ond 1.1% o ymgeiswyr sydd wedi cael statws 'Dim ar gyfer ailasesiad ', sy'n dangos nad yw'r ddarpariaeth hon yn cael ei defnyddio'n effeithiol ar gyfer y rhai sydd â chyflyrau parhaol, nad ydynt yn gwella.

### d) Diffyg Dealltwriaeth o Anabledd

Mae asesiadau ceisiadau yn canolbwyntio lawer iawn ar symudedd, gyda dealltwriaeth gyfyngedig o anableddau cudd neu anweledig, ac yn aml mae teimlad nad yw aseswyr wedi cael hyfforddiant priodol i ddeall natur amrywiol anableddau.

Er enghraifft: '*Mae gen i stoma parhaol ac ers fy llawdriniaeth y llynedd, rwy'n cael trafferth dod o hyd i le parcio addas sy'n caniatáu i mi agor drws fy nghar yn ddigon llydan i fynd i mewn ac allan heb daro fy stoma a'm hernia bach. Yn aml mae angen mynediad uniongyrchol i doiled arnaf ac rwy'n dal i brofi blinder a phoen, ond oherwydd y gallaf gerdded pellter penodol, ni allaf wneud cais am fathodyn gyda fy nghyngor lleol. Cefais hyd yn oed lythyr cefnogi gan fy ymgynghorydd. Mae hyn yn annheg iawn i'r rhai ohonom sydd ag anableddau anweledig / cudd.*'

### e) Pryderon ynghylch y Doll Emosiynol ac Urddas

Disgrifir y broses yn aml fel un llawn straen, dirmygus, ac sy'n sbarduno "teimlad o ofn". Mae unigolion â chyflyrau gydol oes nad ydynt yn gwella yn adrodd am rwystredigaeth wrth orfod 'profi' eu hanabledd dro ar ôl tro, er nad oes dim yn newid.

Mae yna ymdeimlad nad yw'r system yn ymddiried mewn gweithwyr meddygol proffesiynol na phrofiad personol.

## 4.2 Goblygiadau Deddfwriaethol a Chydraddoldeb

Mae'r materion a godwyd nid yn unig yn tynnu sylw at aneffeithlonrwydd gweithredol, ond maent hefyd yn codi pryderon ynghylch cydraddoldeb, hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol.

Deddfwriaeth Berthnasol:

Deddf Cleifion Cronig ac Anabl 1970 (Adran 21): Yn grymuso Llywodraeth Cymru i gymryd camau ystyrlon i gefnogi pobl anabl.

Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus:

- Dileu gwahaniaethu
- Hyrwyddo cyfle cyfartal
- Dileu neu leihau anfantais
- Darparu addasiadau rhesymol

Deddf Hawliau Dynol 1998:

- Hawl i fyw gydag urddas a pharch
- Rhyddid rhag gwahaniaethu

## 4.3 Pryderon allweddol:

Gall gofyn am dystiolaeth dro ar ôl tro gan unigolion â chyflyrau parhaol fod yn wahaniaethu anuniongyrchol ac yn fethiant i wneud addasiadau rhesymol.

Mae'r broses yn tanseilio urddas, ymreolaeth ac annibyniaeth, gan dorri egwyddorion Deddf Cydraddoldeb a Deddf Hawliau Dynol.

Mae'n dargyfeirio adnoddau cyhoeddus tuag at dasgau gweinyddol diangen ac yn ychwanegu straen at y rhai y bwriedir i'r system eu cefnogi.

## 5. Argymhellion

Mae Llywodraeth Cymru’n adnabyddus am hyrwyddo model cymdeithasol anabledd, ac mae mewn sefyllfa unigryw i arwain diwygio. Drwy gyflwyno Bathodyn Oes i'r rhai sydd â chyflyrau gydol oes, nad ydynt yn gwella, sy'n dibynnu ar fathodyn glas gall:

- Gyflawni ei rhwymedigaethau o dan Adran 21 o Ddeddf 1970, Deddf Cydraddoldeb 2010, y Ddeddf Dyletswydd Cydraddoldeb, a Deddf Hawliau Dynol 1998
- Leihau gwastraff gweinyddol
  Gynnal urddas ac ymreolaeth
- Gael gwared ar rwystrau systemig sy'n effeithio ar bobl anabl a'u gofalwyr.

**Rydym yn annog y Llywodraeth i:**

A) Gyflwyno Bathodyn Oes ar gyfer unigolion â chyflyrau gydol oes, nad ydynt yn gwella, gan ddileu'r angen am ailasesu a cheisiadau dro ar ôl tro.
B) Wella Cyfathrebu ac Atgoffa
C) Weithredu system atgoffa awtomatig i hysbysu unigolion cyn i'w bathodyn ddod i ben.
D) Fynd i'r Afael ag Anableddau Cudd
E) Sicrhau bod aseswyr wedi'u hyfforddi'n briodol i ystyried ystod eang o anableddau, gan gynnwys anableddau cudd ac anableddau nad ydynt yn gysylltiedig â symudedd
F) Leihau Biwrocratiaeth
G) Symleiddio'r broses ymgeisio a lleihau'r angen am dystiolaeth dro ar ôl tro, yn enwedig lle mae cyflwr gydol oes wedi'i gadarnhau'n feddygol
H) Gynnal Hawliau ac Urddas
I) Ddylunio polisïau yn unol â gofynion cydraddoldeb, hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol.

## 6. Casgliad

Mae’r system Bathodyn Glas bresennol yng Nghymru yn creu rhwystrau yn hytrach na'u dileu, gan weithio’n groes i amcanion deddfwriaeth hawliau anabledd. Mae angen diwygio ar frys er mwyn:

- Cynnal urddas
- Adfer ymddiriedaeth
- Lleihau gwastraff
- Sicrhau mynediad cyfartal at gymorth hanfodol

Byddai cyflwyno Bathodynnau Oes a gweithredu'r newidiadau a argymhellir yn gwasanaethu unigolion a gofalwyr anabl ledled Cymru yn well, ac yn cyflawni cyfrifoldebau cyfreithiol a moesol y Llywodraeth.

## Ynglŷn â STAND Gogledd Cymru CBC

Ffurfiwyd STAND Gogledd Cymru CBC yn 2018 gan Yvonne Brookes a Sarah McCulloch fel Cwmni Buddiant Cymunedol dielw mewn ymateb i gau sefydliadau sy'n cynrychioli teuluoedd plant ac oedolion ifanc ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, Anghenion Ychwanegol ac Anableddau yng Ngogledd Cymru, ac mae'n sefydliad dan arweiniad rhieni.

I gael rhagor o wybodaeth am STAND Gogledd Cymru CBC, ewch i'n gwefan: www.standnw.org

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, os hoffech wybod mwy am STAND Gogledd Cymru CBC neu os hoffech dderbyn gwybodaeth am ein hyfforddiant, digwyddiadau a gweithdai ar gyfer rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, anfonwch e-bost at ein gweinyddwr Admin@standnw.org neu ffoniwch 07570 583 842.

https://www.standnw.org/